Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 14.05.2021

## Cymru yn symud i Lefel Rhybudd 2

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau heddiw y bydd Cymru yn symud i Lefel Rhybudd 2 ddydd Llun 17 Mai 2021. Mae'r newidiadau i gyfyngiadau'r coronafeirws yn cynnwys y canlynol:

- Gall lleoliadau lletygarwch dan do ailagor – gall chwe pherson o hyd at chwe aelwyd (heb gynnwys plant o dan 11 oed) archebu
- Gall pob llety gwyliau ailagor yn llawn
- Gall lleoliadau adloniant, gan gynnwys sinemâu, neuaddau bingo, alïau bowlio, canolfannau chwarae dan do, casinos, arcedau difyrion a theatrau ailagor. Gall sinemâu, theatrau, neuaddau cyngerdd a meysydd chwaraeon werthu bwyd a diod cyn belled â'i fod i'w fwyta a'i yfed wrth eistedd i wylio'r perfformiad
- Gall atyniadau dan do i ymwelwyr ailagor, gan gynnwys amgueddfeydd ac orielau

- Gall hyd at 30 o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau dan do wedi'u trefnu a hyd at 50 o bobl mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu. Mae hyn yn cynnwys derbyniadau priodas a the angladd

I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/cymru-yn-symud-i-lefel-rhybudd-2

## Annog ail-agor diogel yng Ngwynedd

Wrth i baratoadau gael eu gwneud i ail-agor rhagor o fusnesau i'r cyhoedd dan do, mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau datganiad yn annog trigolion i barhau i gadw at y rheoliadau er mwyn diogelu cymunedau'r sir. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd14Mai2021

## Cyngor diweddaraf

- PWYSIG: Mae'n parhau i fod yn orfodol i bob busnes lletygarwch (gan gynnwys tafarndai, bariau, caffis a bwytai) gasglu manylion staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr, a'u cadw yn ddiogel am 21 diwrnod. Nid yw dangos Cod QR App GIG ar ei ben ei hun yn cydymffurfio â'r rheolau. Mae angen casglu enwau, rhifau cyswllt ffôn a chofnod o'r dyddiad a'r amser cyrraedd ar gyfer pawb (dros 18)

Mae rhestrau gwirio gwych ar gael ar fformat poster i gefnogi'r Canllawiau ar gyfer Busnesau Twristiaeth a Lletygarwch, sydd yn amlinellu'r mesurau allweddol y dylech eu rhoi ar waith i gadw eich staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr yn ddiogel.

- Cadw Pellter Cymdeithasol
  https://bit.ly/3eD9mxU

- Hylendid
  https://bit.ly/3dSNQWL

- Cadw Cofnodion – pob safle lletygarwch, trwyddedig a heb eu trwyddedu. https://bit.ly/32OatFI

I gael y cyngor, y canllawiau a'r deunyddiau diweddaraf i gadw eich staff a'ch cwsmeriaid yn ddiogel, ewch i:

https://llyw.cymru/diogelu-cymru-canllawiau-i-dwristiaeth-a-lletygarwch-html

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/diogelu-cymru-yn-y-gweithle

https://llyw.cymru/aros-yn-ddiogel-yn-y-gwaith

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

## Cefnogaeth ariannol pellach i fusnesau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd cymorth ariannol pellach ar gael i helpu'r busnesau hynny sy'n parhau i gael eu heffeithio gan gyfyngiadau i dalu costau parhaus hyd at ddiwedd mis Mehefin 2021 wrth iddynt baratoi ar gyfer ailagor ac amodau masnachu mwy arferol.

Mae'r busnesau a all elwa'n cynnwys y canlynol:

- Clybiau nos a lleoliadau adloniant hwyr
- Digwyddiadau a lleoliadau cynadledda nad ydynt wedi'u cynnwys yng Nghronfa Adfer Ddiwylliannol (CRF) Llywodraeth Cymru
- Busnesau lletygarwch a hamdden, gan gynnwys bwytai, tafarndai a chaffis
- Busnesau'r gadwyn gyflenwi, sydd wedi cael eu heffeithio'n sylweddol gan y cyfyngiadau.

Bydd gwiriwr cymhwysedd yn agor ar wefan Busnes Cymru am hanner dydd ar 17 Mai 2021. Bydd busnesau'n gallu cyflwyno ceisiadau erbyn diwedd y mis a byddant yn derbyn rhwng £2,500 a £25,000 gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau. Caiff y cyllid ei gyfrif yn seiliedig ar faint y busnes a'r math o gyfyngiadau sydd arno. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

- https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/cefnogaeth-bellach-i-fusnesau-cymru

## Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru – Cronfa i Weithwyr Llawrydd yn agor 17 Mai 2021

Bydd y Gronfa ar gyfer gweithwyr llawrydd yn agor am 12:00pm ar 17 Mai 2021 a bydd yn cau am 5:00pm ar 1 Mehefin 2021. Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn taliad o £2,500. Cyn ymgeisio mae angen cwblhau y gwiriwr cymhwysedd ar wefan Busnes Cymru i weld a ydych chi'n debygol o fod yn gymwys i gael cymorth. Am fwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael ac i ymgeisio, ewch i:

http://bit.ly/CronfaGweithwyrLlawryddMai2021

## Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru: Digwyddiadau Cymunedol

Mae cyfle i drigolion a busnesau'r ardal ddeall mwy am enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru mewn cyfres o ddigwyddiadau cymunedol rhithwir, a gynhelir hyd at 25 Mai 2021 gan swyddogion o Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y cais, a rhai o bartneriaid allweddol y prosiect. Dyma restr o'r digwyddiadau sy'n weddill, gyda dolenni cofrestru:

- Ardal Dyffryn Nantlle: 17 Mai 2021, 6:00pm
  https://bit.ly/3y2Ls8f

- Ardal Dyffryn Ogwen: 18 Mai 2021, 6:00pm
  https://bit.ly/2R0vmet

- Ardal Chwarel Dinorwig: 20 Mai 2021, 6:00pm
  https://bit.ly/33pbnJ2

- Ardal Blaenau Ffestiniog / Porthmadog: 25 Mai 2021, 7:30pm https://bit.ly/3boBdRI

## Cyfres Gweithdai Gwytnwch ar gyfer Mentrau Cymdeithasol Cymru: Mesur eich Effaith Gymdeithasol 19 & 20 Mai 2021, 9:30am – 12:30pm

Mae'r gweithdy Mesur eich Effaith Gymdeithasol yn ffordd berffaith o ddechrau eich taith effaith gymdeithasol a gwella sut yr ydych chi'n cyfleu eich gwerth cymdeithasol a'ch effaith. Os ydych am ddefnyddio eich data monitro i ennill contractau, ymgysylltu â gwirfoddolwyr neu gynyddu rhoddion – dyma'r gweithdy i chi. Am fwy o fanylion, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/33FW3YL

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru